



CANLLAWIAU YMDRIN Â GWRYCHOEDD UCHEL

Pa ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu hyn?

Ers peth amser nawr mae pwysau gan y cyhoedd wedi galw ar y senedd i chwilio am ddatrysiad statudol i'r problemau a achosir gan wrychoedd uchel. Daeth Rhan 8 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym ar 31 Rhagfyr 2004. Mae'n creu gweithdrefnau newydd i alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ymdrin â chwynion am wrychoedd uchel.

Be' ydy sail unrhyw gŵyn?

Sail unrhyw gŵyn ydy lle yr honnir gan berchennog neu breswilydd eiddo domestig fod gwrych, wedi'i leoli ar dir sy'n eiddo i neu y mae parti arall yn preswyllo ynddo, yn effeithio ar fwynhad rhesymol yr achwynydd o'i eiddo ei hun o ganlyniad i'w gwrych uchel yn gweithredu fel rhwystr i oleuni neu fynediad.

Be' sy'n cael ei gyfri fel 'Gwrych Uchel'?

Diffinir 'Gwrych Uchel' fel llinell o 2 neu fwy o goed neu lwyni bythwyrdd neu rannol fythwyrdd sydd dros 2m o uchder. Ni fydd llwyni a choed unigol yn cael eu cynnwys yn rhychwant y ddeddfwriaeth.

Be' ellir ei wneud os ydy gwreiddiau gwrychoedd yn achosi difrod?

Mae hyn yn fater sifil nad ydy'r Ddeddf yn ymdrin ag ef. Ni all yr Adran Cynllunio ymdrin â phroblemau o'r fath.

A fydd yr Awdurdod yn codi ffi i ymchwilio i gŵyn?

Bydd, dylid cyflwyno ffi o £240 gyda'r cais i ymchwilio i gŵyn. Ni ellir ad-dalu'r ffi yma ac ni chynhelir ymchwiliad heb dderbyn arian. Ceidw'r Cyngor yr hawl i adolygu'r ffi hwn ar unrhyw adeg, ond bydd yn cadw at yr uchafswm a nodir yn y ddeddfwriaeth.

A yw'n ofynnol i'r Awdurdod ymchwilio i'r holl gwynion am wrychoedd uchel?

Nac ydy. Gall yr Awdurdod Lleol wrthod derbyn unrhyw gŵyn a ystyria sy'n wacsaw neu'n flinderus neu os yw'n ystyried nad ydy'r achwynydd wedi cymryd pob cam rhesymol i ddatrys y mater cyn ceisio cynnwys yr Awdurdod Lleol yn yr anghydfod.

Pa ‘gampau rhesymol’ y dylid bod wedi’u cymryd cyn y gwnaiff Awdurdod Lleol ymchwilio?

Bydd yr Awdurdod Lleol am i’r achwynydd ddangos ei fod wedi ceisio dod i gytundeb gyda perchennog y gwrych ynghylch uchder rhesymol i’r gwrych, cyn troi at yr Awdurdod. Rhaid cynnwys cofnodion gyda’r cais i gynnal ymchwiliad yn nodi manylion am geisiadau llafar neu ysgrifenedig i berchennog y gwrych gan yr achwynydd, ynghyd â’u hymateb neu eu diffyg ymateb.

Cwmni sy’n berchen ar y gwrych, nid unigolyn. A ydy’n bosibl gweithredu yn erbyn cwmni?

Ydy. Dylai’r achwynydd gymryd yr un camau rhesymol cyn troi at yr Awdurdod Lleol ag y byddent yn achos unigolion yn berchen ar y gwrych.

Os ydy’r Awdurdod Lleol yn cytuno i ymchwilio i hyn beth fydd y camau cyntaf?

Cyfnewidir gohebiaeth a chynhelir ymweliad safle. Mae’r Ddeddf yn rhoi pŵer mynediad cyfreithiol i eiddo i’r Awdurdod Lleol i ymchwilio i gŵyn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu p’un ai oes cyfiawnhad dros y gŵyn ai peidio, o ran bod uchder y gwrych yn cael effaith andwyol ar fwynhad rhesymol yr achwynydd o’i eiddo. Nid oes cyfyngiad amser ar y cyfnod a gaiff yr Awdurdod Lleol i gyrraedd ei benderfyniad. Unwaith y gwneir penderfyniad, bydd y penderfyniad a’r rhesymau drosto yn cael ei anfon at yr achwynydd a pherchennog y gwrych.

Os ydy’r Awdurdod Lleol yn penderfynu bod y gwrych yn rhy uchel, beth sy’n digwydd nesaf?

Os ystyrir bod hynny’n briodol, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno ‘hysbysiad adfer’ i berchennog y gwrych. Bydd hwn yn nodi pa waith sy’n ofynnol i’w gyflawni ar y gwrych sy’n peri problem, pa gamau atal y dylid eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei gadw ar uchder rhesymol yn y dyfodol ac, yn olaf, y cosbau os ydynt yn methu â chydymffurfio â’r rhybudd. Daw’r hysbysiad yn bridiant ar yr eiddo ac mae’r goblygiadau cyfreithiol dan unrhyw hysbysiad o’r fath yn trosglwyddo i unrhyw berchnogion dilynol.

A ydy’r Ddeddf yn rhoi grym i’r Awdurdod Lleol ei gwneud yn ofynnol i berchennog y gwrych leihau uchder y gwrych i lai na 2m o uchder?

Nac ydy. Serch hynny, bydd i ba uchder y mae’n briodol cwtogi gwrychoedd penodol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos.

A ydy’n ofynnol i berchennog y gwrych gydymffurfio o fewn cyfnod penodol?

Ydy. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y ‘dyddiad cyhoeddi’ a bydd dyddiad o leiaf 28 diwrnod yn ddiweddarach yn cael ei nodi fel y ‘dyddiad gweithredol’. Bydd hefyd yn nodi ‘cyfnod cydymffurfio’, a fydd yn gyfnod rhesymol i ganiatáu cyfle i berchennog y gwrych drefnu i gontractwr ymgymryd â’r gwaith (os yw’n ofynnol) a gwneud trefniadau i gwblhau’r gwaith. Argymhellir na ddylid torri gwrychoedd rhwng mis Mawrth a mis Awst, gan y gall tarfu ar adar sy’n nythu fod yn groes i ddeddfwriaeth gwarchod bywyd gwyllt. Dim ond ar ôl i’r cyfnod

cydymffurfio ddod i ben y gall yr Awdurdod Lleol ddechrau achos am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Beth mae achos o fethu â chydymffurfio yn ei gyflawni?

Mae'r Ddeddf yn creu trosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad adfer. Goblygiadau hyn ydy, os ydy perchennog y gwrych yn ei gael yn euog gan lys ynadon gall gael ei ddirwyo hyd at £1000. Hefyd gall y llys benderfynu gorchymyn i berchennog y gwrych gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol. Ymhellach, mae hefyd yn drosedd rhwystro swyddog y cyngor sy'n gweithredu ei bwerau dan y Ddeddf hon, ac os digwydd hynny gellir cosbi hyn hefyd gyda dirwy o hyd at £1000.

Be' all yr Awdurdod Lleol ei wneud os ydy perchennog y gwrych yn parhau i wrthod cydymffurfio â'r hysbysiad?

Os ydy'r perchennog yn parhau i fethu â chydymffurfio (heb esgus rhesymol), gellir ei ddirwyo ymhellach ar gyfradd o £50 am bob diwrnod mae'r gwaith yn parhau heb ei wneud. Gall Awdurdod Lleol wneud trefniadau i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol ac yna godi tâl ar berchennog y gwrych am gostau'r gwaith. Byddai'r costau hyn yn cael eu cofrestru fel pridiant tir lleol a byddai unrhyw ddarpar brynwyr dilynol yn ddarostyngedig iddynt.

A oes hawl i apelio?

Oes. Rhaid cyflwyno unrhyw apel yn erbyn hysbysiad adfer gan berchennog y gwrych yn ysgrifenedig a'i anfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn pen 28 diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad. Yn yr un modd, gall yr achwynydd apelio i'r Cynulliad, os ydy'r Awdurdod Lleol yn penderfynu peidio â chyhoeddi hysbysiad adfer neu os yw'n cyhoeddi hysbysiad ac yna yn ei dynnu yn ôl. Gall y naill barti neu'r llall gyflwyno apel i'r Cynulliad yn erbyn hysbysiad ar y sail ei fod un ai yn mynd yn rhy bell neu nad ydy'n mynd yn ddigon pell.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Adran Gynllunio ar 01824 706727